CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**ARGYMHELLION CYFARFOD PWYLLGOR RHEOLEIDDIO CYNGOR TREF FFESTINIOG,**

**A GYNHALIWYD AR 6ED MEGEFIN 2023**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths, Cadeirydd

Mark Thomas

Dafydd Dafis

Glyn Daniels

Sioned Graham-Cameron, Clerc y Cyngor Tref

DRAFT

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Morwenna Pugh, Eifiona Davies a Rory Francis.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Ceisiadau Cynllunio**

**a. Gorsaf Bŵer Tangrisiau – adeiladu storfa batri ac estyniad i adeilad presennol i ffurfio trawsnewidydd egni**

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Glyn Daniels nad oedd y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais, a chytunodd pawb.

**b. Amgueddfa Lechi, LLechwedd, Blaenau FFestiniog – adnewyddu canolfan ymwelwyr, gyda chyntedd unllawr newydd, adeilad deulawr newydd gyda bwyty llawr daear/cyntaf ac ystafelloedd dosbarth ar y llawr cyntaf, adeilad gwydr unllawr i gysylltu'r adeilad presennol a'r newydd, paneli solar ar ddrychiad deheuol y siop bresennol a chodi strwythur i ddal ffabrig tynnol i orchuddio ardal allanol.**

Mynegwyd pryderon gan y cynghorwyr y byddai ehangu'r datblygiad yn Llechwedd yn cael effaith negyddol ar y dref drwy grynodi cymaint o bethau ar safle y tu allan i ganol y dref, gan ddenu ymwelwyr yno yn lle helpu economi stryd fawr y dref. Nid oedd unrhyw beth yn dod yn ôl i'r gymuned. Mynegwyd siom hefyd ynglŷn â diffyg manylder gwybodaeth yn y cynnig, a holwyd ynglŷn ag addasrwydd y coridor gwydr yn yr ardal, o ystyried y statws Safle Treftadaeth y Byd.

**4. Ebost a dderbyniwyd ynglŷn â pharcio yn Nolrhedyn a'r ffaith bod ceir yn cael dirwyon parcio yno**

Cafwyd trafodaeth helaeth ar y mater, a holwyd pwy yn union oedd berchen ar y darn tir dan sylw. Cynigiodd y Cynghorydd Glyn Daniels ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i wahodd swyddog priodol i gyfarfod ar y safle, er mwyn trafod opsiynau at y dyfodol i geisio datrys y broblem, a chytunodd pawb.

**5. Arwyneb yn y Parc – darn wedi ei ddifrodi**

Trafodwyd y posibilrwydd o gael Swyddog Cynnal a Chadw'r Cyngor Tref i wneud y gwaith trwsio a dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas y byddai'n holi am brisiau'r deunydd roedd ei angen i wneud y gwaith. Hefyd, cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Dafydd Dafis bod y Cyngor Tref yn cysylltu gyda G L Jones er mwyn cael dyfynbris am y gwaith. Yn y cyfamser gofynnir i Gwyn Thomas ddefnyddio tywod i lenwi'r twll nes gellid ei drwsio yn foddhaol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.52pm

DRAFFT